Archwilio Cymru
Audit Wales

Cyfeirnod: 210A2015

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2015
(Adolygwyd ym mis Ebrill 2016)

Polisi Iechyd a Diogelwch

Cyflwyniad

1 Mae Archwilio Cymru'n ymdrechu i ddarparu a chynnal amgylchedd gweithio diogel ac iach ar gyfer ein holl gyflogeion, contractwyr ac ymwelwyr.

Datganiad polisi iechyd a diogelwch

2 Datganiad o bolisi cyffredinol Archwilio Cymru yw:

- darparu rheolaeth ddigonol ar y risgiau i iechyd a diogelwch sy'n codi o'n gweithgareddau gwaith i ddileu'r risgiau i iechyd, diogelwch a lles ein cyflogeion a defnyddwyr ein safleoedd neu leihau'r risgiau hynny i'r eithaf;
- darparu fforwm trwy'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch ar gyfer trafodaeth rhwng y cyflogwr a chyflogeion ac ar gyfer ymgynghori ynghylch materion iechyd a diogelwch ac i'r pwyllgor uwchgyfeirio'r holl faterion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch at y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli fel y bo angen;
- cynnal asesiad risg o waith ac amgylchedd gweithio Archwilio Cymru a rhoi mesurau ataliol a gwarchodol a chanllawiau polisi priodol ar waith mewn perthynas â hwy;
- darparu gwybodaeth, asesiadau a hyfforddiant ar gyfer yr holl staff mewn perthynas â materion iechyd, diogelwch a llesiant a allai effeithio ar eu gwaith, i sicrhau bod yr holl gyflogeion yn gymwys i gyflawni eu rolau;
- gwneud trefniadau i atal damweiniau ac achosion o afiechyd sy'n gysylltiedig â gwaith;
- cynnal amodau gweithio diogel ac iach;
- adolygu a diwygio'r polisi hwn fel y bo angen; a
- sicrhau y gwelir bod polisïau iechyd a diogelwch ar waith, trwy adolygu gwybodaeth am berfformiad.

3 Bydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru'n sicrhau bod 'person cymwys' wedi cael ei benodi i gynghori ynghylch gofynion deddfwriaethol a bod polisi ac arferion gweithio'n dal i gydymffurfio â'r holl reoliadau iechyd a diogelwch cyfredol. Ystyr 'person cymwys' yw rhywun sydd â digon o sgiliau, hyfforddiant, profiad, gwybodaeth a nodweddion eraill a fydd yn sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys rhestr o ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol.

4 Wrth gymhwyso'r Polisi Iechyd a Diogelwch, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn enwedig mewn perthynas ag asesu risg, addasiadau rhesymol, a darparu hyfforddiant a chanllawiau. Dylai'r Polisi Iechyd a Diogelwch gael ei ddarllen ar y cyd â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Archwilio Cymru sy'n nodi ymrwymiad i'r Ddyletswydd ac â sylw dyladwy i ddileu gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

Cyfrifoldebau iechyd a diogelwch

5 Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru'n deall ac yn derbyn ei gyfrifoldeb ar y cyfan am iechyd a diogelwch dan ddarpariaethau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a deddfwriaeth berthnasol arall ym maes iechyd a diogelwch.

6 Bydd y Bwrdd yn:

- Cymeradwyo'r Polisi Iechyd a Diogelwch hwn ac yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer iechyd a diogelwch. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn dilyn cyflwyno Deddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladdiad Corfforaethol 2007.
- Ei sicrhau ei hun bod y rheolaethau angenrheidiol yn eu lle a bod risgiau i iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n effeithiol yn unol â threfniadau llywodraethu corfforaethol.
- Sicrhau bod holl benderfyniadau'r Bwrdd yn adlewyrchu bwriadau o ran iechyd, diogelwch a llesiant, fel a ddisgrifir yn y datganiad polisi iechyd a diogelwch.
- Rhoi ystyriaeth ffurfiol i'r adroddiad blynyddol ar iechyd a diogelwch a darparu adborth a chyfarwyddyd ar faterion iechyd a diogelwch o ganlyniad i'r adroddiad
- Ei sicrhau ei hun ynghylch y mecanwaith ar gyfer hysbysu ynghylch risgiau i iechyd a diogelwch ac arferion anniogel ac o ran mesur perfformiad yn erbyn y polisi hwn.

7 Yn benodol, gellir cael mynediad at ganllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i aelodau o Fyrddau a chyfarwyddwyr trwy'r ddolen hon: arwain iechyd a diogelwch yn y gweithle. Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth ar gyfer aelodau o Fyrddau a chyfarwyddwyr er mwyn iddynt allu eu hargyhoeddi eu hunain bod y ddogfen bolisi hon a'r arferion gweithio sydd ar waith yn darparu'r sicrwydd angenrheidiol ynghylch materion iechyd a diogelwch.

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

8 Mae'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei roi ar waith wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. Mae'r cyfarwyddwr yn cynrychioli'r Pwyllgor Rheoli ar y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

Rôl y cyfarwyddwr yw cyfathrebu gyda'r Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a darparu arweinyddiaeth ar gyfer Archwilio Cymru ar faterion iechyd a diogelwch. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod risgiau i iechyd a diogelwch yn cael eu hasesu a'u rheoli'n ddigonol er mwyn lleihau eu heffaith i'r eithaf.

Swyddog Iechyd a Diogelwch

9 Y Swyddog Iechyd a Diogelwch yw'r 'person cymwys' sydd wedi'i benodi gan y sefydliad.

10 Rôl y Swyddog Iechyd a Diogelwch yw:

- gweithredu fel hyrwyddwr ar faterion iechyd a diogelwch;
- ymgysylltu â'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch i lunio'r adroddiad blynyddol ar iechyd a diogelwch;
- cyflwyno'r adroddiad blynyddol ar iechyd a diogelwch i'r Bwrdd;
- sicrhau bod cofnodion o berfformiad yn cael eu cynnal;
- gweinyddu trefniadau ar gyfer hyfforddiant iechyd a diogelwch i gyflogeion;
- gweithredu'r Rhaglen Diogelwch Tân yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005;
- sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cynnal pan fo'n briodol yn unol â'r ddeddf cydraddoldeb gan aseswr cymwys a bod unrhyw gamau gweithredu perthnasol yn cael eu rhoi ar waith;
- atal damweiniau ac achosion o afiechyd sy'n gysylltiedig â gwaith trwy reoli'r risgiau i iechyd a diogelwch yn y gweithle, gan gynnwys cynnal asesiadau risg penodol ac addasiadau rhesymol gan gynnwys asesiadau o gyfarpar sgrîn arddangos;
- sicrhau bod gwybodaeth am iechyd a diogelwch yn cael ei darparu mewn fformat hygyrch ar gyfer staff fel bod anghenion staff yn cael eu hystyried h.y. cynghori staff anabl ynghylch camau gweithredu priodol i'w cymryd os bydd tân; a hefyd
- bod yn rhan o arolygiadau ac asesiadau risg wedi'u trefnu a heb eu trefnu o ardaloedd swyddfa.

Rheolwyr Archwilio Cymru

11 Mae gan reolwyr ystod eang o gyfrifoldebau am iechyd a diogelwch; yn arbennig, rhaid iddynt:

- fod yn ymwybodol o Bolisi a Gweithdrefn a threfniadau Iechyd a Diogelwch Archwilio Cymru a sicrhau bod eu staff, contractwyr neu ymwelwyr yn cydymffurfio â hwy.

- sicrhau bod unrhyw ystafelloedd archwilio yn eu rheolaeth yn cael eu hasesu ar gyfer risgiau posibl yn flynyddol fel a nodir mewn canllawiau a gyhoeddwyd gan y Gwasanaethau Busnes a'r Swyddog Iechyd a Diogelwch.
- trwy'r Adran Adnoddau Dynol, sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant digonol sy'n cynnwys hyfforddiant sefydlu ar iechyd a diogelwch a diweddariadau rheolaidd.
- hybu amgylchedd sy'n cefnogi iechyd, diogelwch a llesiant eu tîm
- hysbysu'r Swyddog Iechyd a Diogelwch neu gynrychiolydd iechyd a diogelwch o blith cyflogeion, os oes angen rhoi unrhyw addasiadau ar waith ar gyfer unrhyw aelod o staff e.e. asesiadau o sgriniau arddangos.
- cynnal cyswllt â thimau'r gwasanaethau corfforaethol fel y bo angen er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gynrychiolwyr ynghylch newidiadau yn y gweithle, a allai effeithio ar iechyd a diogelwch staff.
- cychwyn camau gweithredu priodol yn erbyn unrhyw gyflogai neu gontractwr sy'n methu â chydymffurfio â'u dyletswyddau a chyfrifoldebau am iechyd a diogelwch. Ar gyfer staff, dylid dilyn y gweithdrefnau disgyblu; ar gyfer contractwyr, dylid cysylltu â'r adran Adnoddau Dynol neu'r Gwasanaethau Busnes gan ddibynnu ar natur y contract. Gallai methiant gan reolwyr i gymryd camau o'r fath gael ei ystyried yn esgeulustod a gallai hynny ynddo'i hun arwain at gamau disgyblu.
- mynychu unrhyw hyfforddiant seiliedig-ar-gymhwysedd perthnasol a all fod yn ofynnol.

Staff Archwilio Cymru

12 Rhaid i holl staff Archwilio Cymru, lle bynnag y bônt yn gweithio, fod yn ymwybodol bod gan bob cyflogai gyfrifoldeb am iechyd a diogelwch. Dylai staff:

- fod yn ymwybodol o Bolisi a Gweithdrefn Iechyd a Diogelwch Archwilio Cymru a pholisi iechyd a diogelwch eu sefydliad lletyol (os ydynt yn gweithio ar safle cleient neu'n ymweld â safle unrhyw sefydliad arall) a gwneud eu gwaith yn unol â'r gofynion hyn;
- cydweithredu â'r rheolwyr ar bob mater sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch gan gynnwys cydymffurfio â'r holl ganllawiau perthnasol;
- sicrhau eu bod yn mynychu'r holl sesiynau cyfarwyddyd/hyfforddiant iechyd a diogelwch a drefnir a'u bod yn defnyddio'r holl beiriannau ac offer swyddfa fel y'u hyfforddwyd ac y'u cyfarwyddwyd i wneud, ac yn cydymffurfio â defnydd diogel o offer o'r fath bob amser;
- hysbysu'r Swyddog Iechyd a Diogelwch ynghylch unrhyw ddigwyddiad neu ddamwain gan gynnwys digwyddiad trwch blewyn;

- hysbysu'r Swyddog Iechyd a Diogelwch, rheolwr neu gynrychiolwyr staff ynghylch perygl posibl cyn gynted ag y canfuwyd y perygl;
- bod yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer triniaeth cymorth cyntaf, gadael pan fo tân a phan fo argyfwng a'r man ymgynnull tân mewn perthynas â'r adeilad y maent yn gweithio ynddo;
- dilyn yr asesiad risg ar gyfer gweithwyr swyddfa wrth gyflawni eu dyletswyddau;
- cymryd gofal rhesymol am eu hiechyd a diogelwch a llesiant hwy eu hunain, ac iechyd a diogelwch a llesiant pobl eraill y gallai eu gweithredoedd neu hepgoriadau yn y gwaith effeithio arnynt; a
- hysbysu eu rheolwr a'r Swyddog Iechyd a Diogelwch cyn gynted â phosibl os ydynt yn teimlo bod arnynt angen addasiadau rhesymol i'w hamgylchedd gweithio.

Y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch

13 Mae'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn gweithredu fel sianel a ddefnyddir gan Archwilio Cymru i ystyried polisi cyffredinol a materion cyfredol ym maes iechyd a diogelwch ac ymgynghori yn eu cylch.

14 Mae'r pwyllgor yn atebol i'r Pwyllgor Rheoli, trwy'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a bydd yn llunio adroddiad blynyddol.

15 Mae aelodaeth y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r swyddfa **(mae'r manylion i'w cael ar fewnrwyd Archwilio Cymru)**.

16 Mae'n cwrdd yn chwarterol ac mae ganddo'r amcanion a chyfrifoldebau canlynol:

- darparu fforwm ar gyfer trafod ac ymgynghori ynghylch agenda gytunedig o faterion iechyd a diogelwch i reolwyr a chynrychiolwyr ar ochr y staff;
- monitro'r modd y mae Archwilio Cymru'n cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau iechyd a diogelwch ac ystyried gofynion sy'n newid, er enghraifft trwy newidiadau arfaethedig neu wirioneddol mewn deddfwriaeth, ac argymell camau gweithredu priodol;
- monitro gwybodaeth am berfformiad megis absenoldeb, ystadegau a thueddiadau o ran damweiniau, a chynghori'r Pwyllgor Rheoli ynghylch arferion neu amodau sy'n golygu bod angen gwella;
- monitro'r modd y darperir hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol ar gyfer staff Archwilio Cymru;
- adolygu a monitro asesiadau risg ac ystadegau diogelwch, a thrafod materion lles; ac
- adolygu effeithiolrwydd cyfathrebu mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch yn y gweithle.

Cynrychiolwyr iechyd a diogelwch o blith y staff

17 Mae'r cynrychiolwyr iechyd a diogelwch:

- yn cynrychioli staff mewn trafodaethau gydag Archwilio Cymru ynglŷn â materion iechyd, diogelwch neu les;
- yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch;
- yn hysbysu'r Swyddog Iechyd a Diogelwch ynghylch peryglon a digwyddiadau peryglus yn y gweithle;
- ar ran y staff, cyflwyno sylwadau mewn ymateb i ymgyngoriadau ynghylch iechyd a diogelwch;
- cynghori staff ynghylch iechyd a diogelwch ac atgyfnerthu negeseuon iechyd a diogelwch iddynt; a hefyd
- cael hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol a chynnal eu hymwybyddiaeth o'r gofynion

Risgiau i iechyd a diogelwch sy'n codi o'n gweithgareddau gwaith

18 Er bod y risgiau sy'n gysylltiedig â gwaith a wneir gan Archwilio Cymru'n gymharol isel o'i gymharu â diwydiannau eraill megis adeiladu neu weithgynhyrchu, ceir rhai risgiau allweddol a can hynny bydd asesiadau risg yn cael eu cwblhau gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch yn bennaf. Bydd canfyddiadau'r asesiadau risg yn cael eu cyflwyno i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ac, yn ei dro, i'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

19 Bydd yr holl gamau gweithredu i reoli risgiau allweddol yn cael eu cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

20 Mae gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch, rheolwyr llinell, cynrychiolwyr iechyd a diogelwch a staff i gyd rôl allweddol o ran sicrhau bod y camau gweithredu sy'n ofynnol i leihau risg i'r eithaf yn cael eu rhoi ar waith. Gellir aseinio cyfrifoldebau penodol i aelodau unigol o staff.

21 Bydd yr asesiadau risg yn cael eu hadolygu o leiaf yn flynyddol neu pan fo'r gweithgaredd gwaith yn newid, pa un bynnag sydd gynharaf. Ceir rhagor o wybodaeth am feysydd risg allweddol yn **Atodiad 2**.

Ymwelwyr ag Archwilio Cymru

22 Dylai'r holl ymwelwyr gael gwybodaeth hygyrch am y canlynol:

- y trefniadau iechyd a diogelwch perthnasol sy'n berthnasol yn Archwilio Cymru;
- trefniadau ar gyfer cael pasys a mynd i mewn ac allan o'r adeilad;

- y gwaharddiad ar ysmygu a orfodir gan ddeddfwriaeth;
- beth i'w wneud os bydd yn rhaid gadael yr adeilad mewn argyfwng, gan gynnwys lleoliad mannau ymgynnull tân; a
- sut i ofyn am addasiadau fel y bo angen yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

23 **Nodyn** – mae'n ofyniad cyfreithiol hysbysu ynghylch pob anaf a damwain, gan gynnwys rhai gan ymwelwyr, tra bo pobl yn y gweithle

24 Mae'n ofyniad cyfreithiol bod yr holl gontractwyr a ddefnyddir gan Archwilio Cymru:

- os gofynnir iddynt wneud hynny, yn darparu dogfennaeth berthnasol, gan gynnwys dogfennau adnabod a phrawf o gymwysterau a chymhwysedd, i gyflawni'r tasgau y gofynnwyd iddynt eu cyflawni;
- yn cael eu gwneud yn ymwybodol o unrhyw beryglon mewn perthynas â'r dasg y gofynnwyd iddynt ei chyflawni (er enghraifft, lleoliad asbestos);
- yn defnyddio system waith ddiogel lle mae natur y dasg yn achosi risg sylweddol iddynt hwy eu hunain ac i gyflogeion eraill;
- ar unrhyw adeg wrth weithio ar safle Archwilio Cymru, hysbysu Swyddog Iechyd a Diogelwch Archwilio Cymru ynghylch unrhyw bryderon iechyd a diogelwch neu os ceir unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad; a
- gweithio o fewn terfynau'r arferion gweithio diogel y cytunwyd arnynt gan gynnwys trwydded i weithio, a ddyroddir gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch yn ôl y gofyn.

Gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant

25 Caiff posteri ar gyfraith iechyd a diogelwch eu harddangos yn holl swyddfeydd Archwilio Cymru (Heol y Gadeirlan, Penllergaer ac Ewlo). Dylai staff mewn ystafelloedd archwilio ar safleoedd cleientiaid fod yn gyfarwydd â threfniadau lleol ar gyfer mynediad at wybodaeth am iechyd a diogelwch fel rhan o'u proses sefydlu.

26 Mae cyngor ynghylch iechyd a diogelwch ar gael ar y fewnrwyd neu gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch a/neu gynrychiolwyr o blith y staff. Hefyd, mae staff yn cael gwybodaeth am iechyd a diogelwch mewn cylchlythyrau/ar hysbysfyrddau a thrwy ddulliau cyfathrebu eraill megis cyfarfodydd tîm.

27 Bydd y Swyddog Iechyd a Diogelwch yn galw ar gyngor a chymorth arbenigol lle y bo angen gan gynnwys aseswyr gweithleoedd arbenigol neu sefydliadau â sgiliau arbenigol i gwblhau rhai asesiadau risg a thasgau.

28 Caiff hyfforddiant iechyd a diogelwch ei gynnwys yn y rhaglen sefydlu ar gyfer yr holl staff newydd gan gynnwys contractwyr. Mae hyfforddiant diweddaru bob hyn a hyn yn orfodol ar gyfer yr holl staff, gyda hyfforddiant iechyd a diogelwch penodol ar gyfer gyrwyr. Caiff cofnodion hyfforddiant eu cadw gan yr Adran Adnoddau Dynol.

29 Rhoddir hyfforddiant a chymorth arbenigol hefyd lle y bo angen. Caiff yr anghenion hyfforddi hyn eu hadnabod fel arfer o ganlyniad i rôl benodol neu ofynion newidiol yr unigolyn.

30 Hefyd, ceir rhaglen benodol o wiriadau iechyd a diogelwch ar gyfer gweithwyr ifainc a'r Swyddog Iechyd a Diogelwch sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau risg penodol ar gyfer pobl ifanc.

31 Lle y bo'n berthnasol, darperir hyfforddiant ar gyfer wardeniaid tân, personél cymorth cyntaf a chynrychiolwyr iechyd a diogelwch hefyd.

Damweiniau, cymorth cyntaf ac afiechyd sy'n gysylltiedig â gwaith

32 Mae Archwilio Cymru'n ymrwymedig i sicrhau iechyd, diogelwch a lles ei staff. I sicrhau y cydymffurfir â'r nod yma bydd y Swyddog Iechyd a Diogelwch, gan gysylltu â chydweithwyr yn yr Adran Adnoddau Dynol, yn monitro lefelau absenoldeb oherwydd salwch ac, yn enwedig, os oes unrhyw fater penodol gyda straen sy'n gysylltiedig â gwaith.

33 Ni all yr un amgylchedd gwaith fod heb unrhyw risgiau o gwbl ac felly ceir wastad risg o ddamweiniau yn y gweithle. Fodd bynnag, mae gan Archwilio Cymru nifer o staff cymorth cyntaf hyfforddedig yn lleoliad pob prif swyddfa a fydd yn gallu ymdrin â damweiniau/digwyddiadau yn y gweithle. Mae'r rhestr o staff cymorth cyntaf cymwysedig i'w chael ar y rhyngrwyd a hefyd ar hysbysfyrddau staff ym mhrif swyddfeydd Archwilio Cymru.

34 Darperir blwch cymorth cyntaf ar gyfer yr holl staff cymorth cyntaf. Mae trefniadau lleol yn berthnasol ar safleoedd cleientiaid.

35 Rhaid hysbysu'r Swyddog Iechyd a Diogelwch, sef gwarcheidwad y llyfr damweiniau, ynghylch pob damwain, digwyddiad gwirioneddol a digwyddiad trwch blewyn. Y Swyddog Iechyd a Diogelwch sy'n gyfrifol am gofnodi'r ddamwain a, lle y bo angen, adrodd ar y ddamwain yn unol â gofynion y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

Gweithdrefnau argyfwng – tân a gadael adeiladau

36 Mae gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch gyfrifoldeb dirprwyedig am sicrhau bod yr asesiad risg tân yn cael ei gynnal a'i roi ar waith.

37 Caiff manylion ar gyfer gadael adeiladau pan fydd tân eu harddangos ac fe gynhelir ymarfer gadael-mewn-argyfwng yn flynyddol yn swyddfeydd Archwilio Cymru. Bydd trefniadau gwahanol yn eu lle mewn ystafelloedd archwilio ar safleoedd cleientiaid.

38 Mae'r Swyddog Iechyd a Diogelwch, gyda chymorth wardeniaid tân, yn cwblhau prawf larwm tân wythnosol yn swyddfeydd Archwilio Cymru.

39 Mae diffoddwyr tân ar gael yn lleoliadau holl brif swyddfeydd Archwilio Cymru ac maent yn cael eu gwirio a'u profi'n flynyddol.

Monitro ac adolygu

40 I wirio bod ein hamodau gwaith a'n harferion gweithio diogel yn cael eu dilyn, byddwn yn:

- cwblhau asesiad cyffredinol i ganfod risg sylweddol sy'n galw am asesiad pellach neu reolaeth bellach;
- ymchwilio i'r holl ddamweiniau, digwyddiadau gwirioneddol a digwyddiadau trwch blewyn yn y gweithle, ac yn cymryd camau gweithredu priodol i gywiro unrhyw risgiau a ganfuwyd;
- adolygu ffigyrau absenoldeb oherwydd salwch, milltiroedd gyrwyr ac oriau gwaith staff, ac yn rhybuddio'r rheolwyr, lle y bo angen, ynghylch unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg;
- cwblhau asesiadau risg blynyddol yn lleoliad pob swyddfa, gan gynnwys swyddfeydd cleientiaid;
- adolygu'r holl asesiadau risg a gwblhawyd ac unrhyw gynlluniau gweithredu dilynol i sicrhau bod trefniadau'n dal i fod yn effeithiol a bod unrhyw faterion arwyddocaol sy'n galw am gamau ataliol neu gywirol wedi cael eu cwblhau; a hefyd
- cynhyrchu adroddiad blynyddol ar iechyd a diogelwch ar gyfer y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoli.

41 Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn goruchwylio camau gweithredu i reoli risgiau allweddol a sicrhau y cymerir camau gweithredu priodol mewn perthynas ag unrhyw faterion arwyddocaol a ganfuwyd. Gall y sawl sy'n gyfrifol am gwblhau unrhyw gamau gweithredu amrywio gan ddibynnu ar natur y mater

Atodiad 1 – Deddfwriaeth a chanllawiau i gyfeirio atynt

42 Defnyddir y rheoliadau a chanllawiau statudol canlynol i osod y safonau ar gyfer iechyd, diogelwch, lles a chymorth cyntaf:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrîn Arddangos) 1992
- Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario (fel y'u diwygiwyd) 2002
- Rheoliadau Gweithleoedd (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992
- Rheoliadau Darparu a Defnyddio Offer Gwaith 1998
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013
- Rheoliadau Cynrychiolydd Diogelwch a Phwyllgorau Diogelwch 1977 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau Diogelwch (Ymgyngoriadau â Chyflogeion) 1996
- Deddf Swyddfeydd, Siopau a Safleoedd Rheilffyrdd 1963
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981
- Rheoliadau Gwybodaeth am Iechyd a Diogelwch i Gyflogeion (Diwygio) 2009
- Rheoliadau Offer Codi a Gweithrediadau Codi 1998
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Diwygiadau Amrywiol) 2002
- Rheoliadau Amser Gweithio 1998
- Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Arwyddion a Signalau Diogelwch) 1996
- Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015
- Clefyd y Llengfilwyr: rheoli bacteria clefyd y llengfilwyr mewn systemau dŵr, cod ymarfer a chanllawiau 2003
- Rheoliadau Rheoli Meysydd Electromagnetig yn y Gwaith 2016

43 Gall y canllawiau canlynol helpu o safbwynt cydraddoldeb ac amrywiaeth:

- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Atodiad 2 – Meysydd risg allweddol ar gyfer staff Archwilio Cymru

Beth yw'r peryglon?	Beth ydych chi'n ei wneud yn barod?	A oes angen i chi wneud unrhyw beth arall i reoli'r risg?
Gyrru ar gyfer Gwaith – Mae ein holl staff gweithredol yn symudol ac mae angen iddynt yrru i gyflawni eu dyletswyddau, i leoliadau sy'n aml yn bell yn ddaearyddol. Felly mae risg o ddamweiniau ac o effaith hirdymor ar lesiant staff.	• Cyfleusterau fideo-gynadledda wedi'u gosod yn swyddfeydd Archwilio Cymru • Hierarchaeth teithio a staff yn cael eu hannog i ddefnyddio cludiant cyhoeddus a mentrau beicio-i'r-gwaith lle y bônt ar gael • Mae'r cynllun teithio newydd sydd yn ei le'n nodi'n glir bod rhaid i gerbydau fod yn addas ar gyfer y ffordd fawr ac mae'n atgyfnerthu'r arfer da o gymryd seibiannau ar deithiau maith • Ariannu arosiadau dros nos mewn gwestai lle mae anghenion busnes yn cyfiawnhau hynny • Monitro milltiroedd busnes a damweiniau gyrwyr ceir ar brydles, Lwfans Teithio a cherbydau defnydd preifat • Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch gorfodol ar gyfer gyrwyr yn cael ei ddarparu ar gyfer yr holl staff y mae'n ofynnol iddynt yrru ar fusnes y cwmni. Yr hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru o leiaf bob 2 flynedd	• Rheolwyr i adolygu'r holl adroddiadau ar filltiroedd ar gyfer staff yn eu timau a chymryd camau lle y bo angen i leihau teithio lle cofnodwyd milltiroedd uchel. • Sicrhau bod yr holl ddechreuwyr newydd y mae'n ofynnol iddynt yrru ar fusnes y cwmni'n cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar gyfer gyrwyr a'u bod wedi darllen y cynllun teithio. • Diweddaru'r polisi teithio i adlewyrchu newidiadau a argymhellir gan adolygiad o fflyd a chludiant a newidiadau o ran arfer gorau • Gwirio trwyddedau a chynnal asesiad risg • Hyfforddiant wedi'i dargedu os yw'n ofynnol ar gyfer, e.e., milltiroedd uchel neu lle cafwyd damweiniau lluosog

Straen – Gallai ffactorau sy'n gallu cyfrannu at straen, e.e. diffyg rheolaeth ar y swydd ac ati, effeithio ar yr holl staff.	• Mae staff yn deall eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau • Gall staff siarad gyda rheolwr neu oruchwylwyr os ydynt yn teimlo'n sâl neu'n anghysurus ynglŷn â phethau yn y gwaith • polisi a diwylliant 'dim bwlio' • Hyfforddiant rheolwyr a staff ar reoli straen • Rhaglen cynorthwyo cyflogeion ar gael 24/7 • Polisi llesiant yn cwmpasu ffynonellau gwybodaeth a chyfeirio at ffynonellau cymorth defnyddiol • Adolygiad iechyd a diogelwch o bob math o absenoldeb	• Atgoffa staff y gallant siarad yn hyderus gyda rheolwyr (heb iddynt fwrw bai) os ydynt yn teimlo'n sâl neu'n anghysurus oherwydd gwaith • Adolygu ystadegau salwch bob hyn a hyn a chymryd camau cywirol lle y bo angen
Diwylliant o oriau hir – Yn hanesyddol mae gan wasanaethau proffesiynol ddiwylliant o weithio oriau hir, felly mae hyn yn risg allweddol i Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn Archwilio Cymru	• Wedi cyfyngu ar oriau agor swyddfa Caerdydd • Mae rheolwyr llinell yn adolygu ac yn trafod cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith gydag aelodau o staff sy'n gweithio oriau hir • Cofnodi mewn amser real a fydd yn darparu tystiolaeth o weithio oriau hir lle mae hynny'n digwydd • Adolygiad gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch o oriau a weithiwyd dros y contract a chario absenoldeb drosodd	• Monitro a gweithredu lle dangosir trwy gofnodi mewn amser real bod staff yn gweithio oriau hir • Rheolwyr a staff i gael eu hatgoffa o'r gofynion ar gyfer cofnodi mewn amser real • Arolwg pwls cyfnodol o gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith